

## Tyfu Cymru: Taflen Cyngor Technegol Nodiadau ar goed Nadolig – Gorffennaf

### Gwyddon

Dylech edrych yn rheolaidd - bob 7 i 14 diwrnod - ar eich coed am ddifrod gwyddon, er bod tywydd gwlypach yng Nghymru yn gallu lleihau difrod gwyddon. Mae **gwyddon troelli conwydd** wedi bod yn broblem arbennig yn y de ddwyrain. Mae'r wyau'n gaeafu ac yn deor ddechrau'r gwanwyn, gyda'r gwyddon ifanc yn bwydo ar y blaguriad cyntaf. Mae'r rhain yn atgynhyrchu'n gyflym, ac felly'n mynd drwy sawl cenhedlaeth mewn blwyddyn er mai dim ond yn ystod yr haf a'r hydref y maen nhw'n weithredol ar y cyfan. Maen nhw'n bwydo ar sudd drwy dyllu drwy'r glasgroen, gan adael difrod lliw rhwd ar yr wyneb a gadael y nodwyddau mewn perygl o ddadhydradu mewn tywydd poeth a sych, sy'n cynyddu'r risg y bydd y goeden yn gollwng ei nodwyddau cyn amser. Mae'r amrywiaeth o widdonladdwyr penodol i'w defnyddio i reoli gwiddon troelli conwydd bellach wedi'i gyfyngu i spirodiclofen (Envidor) EAMU (na fydd ar gael mwyach yn y DU o ddechrau'r flwyddyn nesaf) a clofentezine (Apollo 50SC) EAMU. Mae'r naill widdonladdwr a'r llall yn weithredol yn erbyn wyau cynnych yr haf (ond nid wyau sy'n gaeafu) a gwyddon ar y cyfnod symud cynnar iawn (sydd newydd ddod allan o wy). Mae'n bosibl y bydd gwyddonladdwr arall sy'n newydd i'r DU (METI sy'n weithredol ar wyddon troelli conwydd ar bob cyfnod) ar gael cyn bo hir i'w ddefnyddio ar stoc meithrinfa caled awyr agored, yn cynnwys coed Nadolig, acequinocyl (Kanemite), ond mae'n annhebygol y bydd hynny tan 2021 ar y cynharaf.



Difrod gan Widdon Troelli

**Gwyddon Nalpella** Gall sawl rhywogaeth o wyddon Eriophyid effeithio ar goed Nadolig e.e. *N. haarlovi* ar sbriws Norwy a sbriws glas. Mae rhai rhywogaethau sy'n gallu bod yn bla ar wir ffynidwydd (*Abies*) yn gallu bod wrthi'n bwydo ar nodwyddau gydol y flwyddyn os yw'r tymheredd yn ddigon uchel. Mae'r gwyddon hyn yn bwydo ar ochr isaf nodwyddau fel arfer, ac mae hyn yn niweidio glasgroen cwyr nodwyddau fel eu bod yn ymddangos yn wyrdd lwyd pŵl eu lliw. Fe'u gadewir yn dueddol o ddadhydradu, brownio a cholli'u nodwyddau cyn amser. Mae gwyddon rhwd Nalpella yn llawer llai na gwyddon troelli conwydd ac mae angen defnyddio lens llaw x 20 wrth chwilio amdanynt ar nodwyddau. Maent yr un siâp â thorpido ac maen nhw'n symud yn araf iawn, o'u cymharu â gwyddon troelli conwydd. Mae'r gwiddonladdwyr penodol clofentezine a spirodiclofen yn weithredol yn erbyn wyau ac epil symudol ifanc gwyddon rhwd. Gellir defnyddio powdr sylffwr gwlychadwy (Kumulus DF) EAMU i atal/lladd gwyddon rhwd, drwy raglen a ailadroddir bob 3 – 4 wythnos o ganol Mai tan fis Medi. Mae sylffwr yn gallu rhoi rhywfaint o reolaeth dros widdon troelli conwydd, ond canfuwyd bod angen i'r cyfraddau defnyddio fod yn uwch ac yn sgil hynny mae mwy o berygl y bydd y nodwyddau'n cael eu difrodi (llosgi) os caiff ei ddefnyddio mewn tywydd poeth llachar.



Difrod gan Widdon Nalpella

## Llyslau

**Llysleuen Ffynidwydd Fawr** (*Cinaria confinis*) Pla sy'n effeithio ar wir ffynidwydd, ffynidwydd y Cawcasws a ffynidwydd urddasol yn bennaf. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dod yn broblem gynyddol yn y cyfnod cyn y Nadolig, yn enwedig os yw cwsmeriaid yn mynnu bod plaladdwyr yn cael eu defnyddio dim hwyrach na mis Medi. Gan fod yr oedolyn a'r llyslau ifanc yn bwydo o dan y canghennau neu drwy'r rhisgl ar brif foncyffion coed, gall y llysleuen hon gynhyrchu cawod fêl, ond yn bwysicach yw'r niwed y gall y bwydo ei achosi pan fydd yn bresennol mewn niferoedd mawr. Mae difrod i'r meinweoedd mewnol yn gallu arwain at bantiau a chreithiau ar y pren yn ddiweddarach.



Er bod pryfetach ysglyfaethus sy'n digwydd yn naturiol fel buchod coch cwta, adenydd siderog a phryfed hofran yn gallu rheoli llyslau ffynidwydd mawr, yn aml ceir pla yn gynnar neu'n hwyr iawn yn y flwyddyn pan fydd yr ysglyfaethwyr hyn yn anweithredol, neu pan fydd nifer y llyslau mewn ardaloedd penodol o blanhigfa mor fawr fel nad yw bio-reolaeth yn debygol o roi digon o reolaeth yn gyflym heb achosi rhywfaint o ddifrod i'r coed.

**Llysleuen egin sbriws** (*Cinaria pilicornis*) Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y llysleuen ffynidwydd fawr, mae oedolion benyw y rhywogaeth hon wedi'u gweld yn ne Lloegr o leiaf wrthi'n bwydo ar fôn nodwyddau sbriws Norwy a sbriws glas Colorado. Fel arfer, mae'r rhywogaeth hon yn gaeafu fel wyau. Gall y rhain deor yn gynnar iawn yn y flwyddyn h.y. Mis Mawrth, gan gynhyrchu benywod diadenydd sydd, wrth i'r blaguriad ddechrau, yn symud allan i fwydo ar y twf ifanc. Mae'r niferoedd ar eu huchaf fel arfer yn gynnar yn yr haf/ying nghanol yr haf. Mae llyslau adeiniog yn ymddangos yn y nythfeydd ac weithiau mae'r rhain yn hedfan tipyn o bellter gan lanio ar goed o fewn yr un blanhigfa neu mewn planhigfeydd eraill. Yn y gwanwyn a dechrau'r haf, gall y nythfeydd llyslau lluosu'n gyflym iawn heb i'r benywod gymharu gan gynhyrchu niferoedd mawr o epil ifanc byw. Mae'r rhywogaeth hon o llyslau yn cynhyrchu llawer iawn o gawod fêl wrth iddo fwydo, a honno wedi'i heintio â llwydni du. Mae canghennau a heintir yn troi'n ddu a gludiog ac weithiau nid oes modd gwerthu'r coed hyd yn oed sawl blwyddyn ar ôl y difrod. Mae modd rheoli'r llysleuen hon yn gymharol hawdd, ond mae angen ei chanfod yn gynnar i atal poblogaethau rhag mynd yn fawr. Er bod ysglyfaethu gan bryfed brodorol llesol yn gallu digwydd, yn aml mae angen defnyddio pryfladdwr ym misoedd cynnar y gwanwyn neu'r hydref pan nad oes pryfed llesol yn weithredol mwyach yn y planhigfeydd. Gellir rheoli llyslau â acetamiprid e.e. Gazelle (ar y label), thiaclopid e.e. Calypso EAMU (yn cael ei ddefnyddio ond mae'r gymeradwyaeth wedi'i dirymu ac ni cheir ei ddefnyddio ar ôl Chwefror 2021) ac mae spirotetramat h.y. Batavia, EAMU a chynnyrch asid brasterog h.y. Flipper (EAMU) hefyd yn gallu bod yn effeithiol. Adroddwyd canlyniadau da hefyd lle defnyddiwyd asiantau rheoli ffisegol nas enwyd (gwlychwyr rheoli plâu ffisegol gwlychwyr rheoli plâu ffisegol).



Llysleuen egin sbriws

Gall **Adelges** ddod yn broblem ddifrifol mewn planhigfeydd o wir ffynidwydd, yn arbennig ffynidwydd y Cawcasws, ffynidwydd Fraser a ffynidwydden urddasol. **Llysleuen wlanog ffynidwydd arian** (*Adelges bellach Dreyfusia nordmanniana*) Problem yn bennaf ar Ffynidwydd y Cawcasws, ond nid dim ond hynny.

Mewn cyferbyniad, mae **llysleuen wlanog pinwydd balmaidd** (*Dreyfusia piceae*) yn bla mawr ar ffynidwydd Fraser a ffynidwydd urddasol ond gall hefyd niweidio ffynidwydd y Cawcasws, pinwydd balmaidd a sawl rhywogaeth arall o *Abies*. Fel gyda *Dreyfusia nordmanniana*, mae'r rhan fwyaf o gyflwyno a lledaenu i blanhigfeydd yn digwydd oddi ar stoc plannu neu oddi ar blanhigion sydd wedi'u heintio'n ddrwg sy'n cael eu

plannu gerllaw, gyda'r adelges yn cael eu symud o goeden i goeden gan beiriannau, ar offer a ddefnyddir wrth dorri a thocio ac ar ddillad staff sy'n gweithio yn y coed.

Gall *adelges* fod yn broblem sylweddol, ac maent yn arbennig o weithredol yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r benywod yn gaeafu o dan gaen cwyr gwlanog, wedi'u diogelu rhag ysglyfaethwyr a phryfladdwyr sy'n gweithio ar gysylltiad.

Yn achos **llyslauen wlanog pinwydd balmaidd** mae llyslau benyw anaeddfed yn gaeafu ar y coed (fel llyslau duon bach iawn gydag ymyl gwyn o gwyr o amgylch ymylon eu cyrff) ynghlwm wrth yr egin o gwmpas neu o dan y blagur. Mae'r rhain yn anodd iawn eu canfod yn enwedig pan fo lefel y pla'n fach. Mae'r *adelges* benyw yn cwblhau eu datblygiad (yn aeddfedu) erbyn diwedd mis Ebrill. Maen nhw'n dodwy wyau wrth ymyl eu safle bwydo a'r rheini'n deor wrth i goed flaguro. Maen nhw'n weithredol am ychydig ddyddiau ac yna'n ymgartrefu mewn safleoedd bwydo, fel arfer mewn craciau yn rhisgl y coed. Ymlusgwyr bach iawn llwyd tywyll/du sy'n symud allan ar yr egin newydd i fwydo ar y nodwyddau ifanc meddal yw'r wyau sy'n cael eu cynhyrchu gan y benywod hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r difrod a achosir o lawer o bwys. Mwy pwysig yw'r *adelges* anaeddfed sy'n setlo ar risgl coesynnau a brigau. Erbyn mis Gorffennaf mae'r rhain yn dodwy wyau ac o hynny hyd at ddiwedd mis Hydref ymlaen gellir cynhyrchu cenedlaethau pellach o *adelges*, gyda phob un yn cynyddu'r difrod y mae eu bwydo'n ei achosi i goesynnau ac egin y coed. Symptomau'r ymosodiad yw smotiau o wllân cwyr gwyn ar risgl coesynnau, egin wedi chwyddo ac aflunio (gowtiog), y blagur terfynol a blagur eraill ddim yn dechrau tyfu yn y gwanwyn. Buan iawn y mae haint ar goed yn golygu nad oes modd eu gwerthu.



Ymlusgwyr *Dreyfusia nordmannianae* ar nodwyddau ifanc ffynidwydd y Cawscasws

Gellir defnyddio sawl pryfladdwr i reoli - mae flonicaid h.y. Mainman EAMU, Gazelle (ar y label), thiacloprid e.e. Calymso EAMU a spirotetramat h.y. Batavia, EAMU a chynnyrch asid brasterog h.y. Flipper (EAMU) yn gallu bod yn effeithiol. Ond dylid cynllunio rhaglenni chwistrellu er mwyn rheoli hwn a'r **llyslau gwlanog ffynidwydd arian** (*Dreyfusia nordmannianae*) yn ofalus er mwyn dal pob cenedlaeth o *adelges* pan fyddant yn fwyaf agored i niwed a chynnwys cynnyrch actif o sawl grŵp o bryfladdwyr er mwyn osgoi ymwrthedd. Mae cynnyrch actif sy'n drawslaminaidd e.e. Thiacloprid neu sy'n gallu symud drwy system drawsleoli coed mewn ffloem a sylem h.y. spirotetramat yn arbennig o ddefnyddiol. Ar safleoedd lle nad yw llyslau gwlanog yn broblem gydnabyddedig neu lle ceir lefelau isel iawn o bla, gallai defnyddio lambda cyhalothrin h.y. Hallmark with Zeon Technology yn y ffordd arferol (dechrau-canol Mai, cyn blaguro) yn y flwyddyn blannu ac am 1 i 2 flynedd wedyn fod yn ddigon. Efallai y bydd angen atgyfnerthu hwn yn nes ymlaen yn y tymor lle mae nifer y llyslau yn uwch drwy ddefnyddio rhaglen o bryfladdwyr, pob un tua 4 wythnos ar wahân, gan ddefnyddio rhaglen sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r pryfladdwyr uchod, os nad pob un ohonynt. Dylid nodi, oherwydd y ffordd y mae'n gweithio, nad yw spirotetramat (Batavia) yn lladd y plâu hyn yn gyflym, weithiau gall 5-7 diwrnod fynd heibio nes y gellir gweld ei effaith.



Oedolyn *Dreyfusia piceae*  
wedi gaeafu



Difrodydd dros sawl tymor wedi'i  
achosi gan *Dreyfusia piceae*



Difrod bwydo wedi aflunio'r nodwydd,  
achoswyd gan *Dreyfusia*

### Lindys

Mae'r **gwyfyn afal brown golau** yn bla cyffredin ar blanhigion cynydau ffrwythau a choed mewn meithrinfeydd ledled y rhan fwyaf o'r DU, gan gynnwys yr Alban. Pla difrifol yn UDA, i ddechrau roedd yn effeithio ar ffynidwydd Douglas oedd yn cael eu tyfu yn goed Nadolig tua phum mlynedd yn ôl, yna dechreuodd gael ei weld yn bla ar ffynidwydd y Cawcasws yn arbennig ond hefyd ffynidwydd Fraser erbyn hyn yn y DU.



Gwyfyn afal brown golau - oedolyn

Gellir canfod, adnabod a monitro poblogaeth y gwyfyn afal brown golau yn hawdd drwy osod trapiau fferomon mewn planhigfeydd lle gwelwyd difrod nodweddiadol o'r hyn a gynhyrchir gan y deilrolwr hwn h.y. i egin, nodwyddau a blagur. Gellir cael dwy genhedlaeth o wyfynod afal brown golau y flwyddyn, gyda lindys yn cael eu cynhyrchu o wyau sy'n cael eu dodwy gan oedolion ym mis Mai, i'w gweld yn bwydo ar goed am y tro cyntaf ym mis Mehefin/Gorffennaf. Gall ail don o oedolion ym mis Gorffennaf ddarparu rhagor o lindys sy'n dechrau bwydo ar nodwyddau, egin a blagur coed ym mis Awst a mis Medi ac ymlaen wedyn os yw'r tywydd yn gynnes i ddiwedd yr hydref/dechrau'r gaeaf. Efallai y bydd lindys nad ydynt wedi gorffen tyfu ac wedi chwileru erbyn diwedd yr hydref yn gaeafu ar y coed mewn lloches a gaiff ei chreu drwy rwymo nodwyddau ynghyd â gwe o sidan neu o fewn blagur. Maent yn dod allan o'u gaeafgws ym mis Mawrth neu ddechrau mis Ebrill ac yn dechrau bwydo rhagor ar nodwyddau a blagur hyd nes y bydd y blagur yn dechrau tyfu. Wedyn maent yn chwileru ar goed neu yn y pridd o'u cwmpas. Yn anffodus, mae'r gwyfyn afal brown golau wedi datblygu ymwrthedd i amrywiaeth eang o bryfladdwyr fel mai dim ond indoxacarb ar hyn o bryd e.e. Stiward EAMU y gellir dibynnu arno i gael rheolaeth effeithiol. Neu gallai tyfwyr roi cynnig ar ddefnyddio'r cyfrwng bio-reoli bacillus thuringiensis e.e. Dipel DF yn y ffordd arferol gan ddechrau cyn gynted ag y bydd oedolion yn dechrau cael eu



Nodwyddau ffynidwydden y Cawcasws wedi'u  
difrodi gan lindys y gwyfyn afal brown golau

dal mewn trapiau fferomon ac yna bob 8-14 diwrnod wedi hynny nes byddant wedi peidio â hedfan. Dim ond yn eu hinstar cyntaf y bydd y cynnyrch hwn yn lladd lindys h.y. rhai sydd newydd ddod allan o wyau.

### Clefydau

Mae tywydd garw yn gallu gwaethygu **Necrosis Nodwyddau'r Tymor Presennol** yn Ffynidwydd y Cawscasws a Ffynidwydd Urddasol yn ystod cyfnod cynnar twf coed. Cydnabyddir erbyn hyn mai haint ffwngaidd yn y goeden sy'n achosi'r symptomau a welir yn y nodwyddau yr effeithiwyd arnynt ar dwf egin y tymor presennol. Mae'r necrosis hwn yn tueddu i fod yn llai o broblem lle mae'r coed sy'n cael eu tyfu yn rhai sy'n blaguro'n hwyrach a phan fydd tywydd y gwanwyn ar ddechrau'r blaguro yn oer neu'n gynnes ond, yn bwysicaf oll, yn sych. Yn gyffredinol, mae'r clefyd yn fwyaf difrifol pan fydd y tywydd yn boeth ac yn llaith ac y ceir glaw yn gynnar yng nghyfnod tyfu'r coed. Mae'n tueddu i ddatblygu'n fwyaf difrifol pan fydd nodwyddau ifanc yn sychu'n araf ar ôl glaw. Y symptom cyntaf a welir yw marciau llosgi oren/brown amlwg ar wyneb uchaf nodwyddau. Mae'r rhain yn datblygu'n gyflym yn fandiau oren/brown a brown llwyd ar draws lamina'r nodwydd. Yn ddiweddarach bydd sborau duon yn bolio allan o ochr isaf y nodwyddau necrotig. Fel arfer, bydd nodwyddau yr effeithir arnynt yn disgyn tua diwedd mis Gorffennaf hyd at fis Medi h.y. gan adael cyfran uchel o dyfiant egin newydd y tymor presennol heb unrhyw nodwyddau mewn rhai achosion. Mae'n anochel na ellir gwerthu coed yr effeithir arnynt yn ddrwg hyd yn oed os cânt eu gadael am sawl blwyddyn mewn ymgais i'w galluogi i wella. Er bod rhai ffyngleiddiaid mewn treialon labordy wedi dangos eu bod yn gweithio yn erbyn y ffwng *Sydowia polyspora*, nid oes yr un ohonynt hyd yma wedi gallu darparu rheolaeth ddibynadwy dan amodau tyfu masnachol yn y maes.



Symptomau'r necrosis

Bydd y **Chwyn Tân Rhwd** sy'n effeithio ar ffynidwydd y Cawscasws yn arwain at symptomau tebyg i necrosis nodwyddau'r tymor presennol i ddechrau, gyda llawer o achosion o'r haint yn gysylltiedig â thywydd cynnes neu boeth a chyfnodau o law trwm yn ystod cyfnod blaguro cynnar y coed. Mae arwyneb uchaf nodwyddau heintiedig yn dangos marciau llosgi brown/oren fel y ceir gyda'r necrosis, ond yn wahanol i'r necrosis mae sborau oren ysgafn yn datblygu'n gyflym iawn ar ochr isaf nodwyddau heintiedig. Mae nodwyddau yr effeithiwyd arnynt eu taflu o fewn cyfnod byr iawn i ganfod yr haint ac yn llawer cyflymach na gyda'r necrosis. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o'r ffwng rhwd, mae gan y Chwyn Tân Rhwd ail blanhigyn sy'n ei gynnal, sef yr helyglys hardd (nid helyglys America). Gall hefyd heintio ffiwsias, godetias a clarkcias.



Sborau chwyn tân rhwd yn cael eu cynhyrchu o ochr isaf nodwyddau

Cyfyngedig yw'r opsiynau rheoli. Mae ffyngladdwyr Conazole fel tebuconazole (Folicur) hefyd myclobutanil (Systhane 20EW) ac azoxystrobin (Amistar) wedi dangos mewn treialon eu bod yn gweithio rhywfaint yn erbyn y ffwng hwn, ond un ai nid oes caniatâd i'w defnyddio ar blanhigion addurnol awyr agored, nad ydynt ar gael i'w defnyddio mwyach, nad ydynt yn ddibynadwy pan gânt eu defnyddio'n fasnachol neu gallent fod yn lyswenwynol i'r coed. Felly ar hyn o bryd, y cyngor yw osgoi plannu ffynidwydd y Cawscasws mewn ardaloedd lle ceir helyglys hardd, boed hynny yn y cae neu'r gwrychoedd neu goedydd o gwmpas ac anelu at reoli'r chwyn hwn o fewn planhigfeydd presennol fel nad oes egin sydd wedi'i heintio gan rwd yn bresennol pan fydd y coed yn blaguro. Yn anffodus, mae'r Helyglys Hardd yn blanhigyn di-droi'n-ôl, â gwreiddiau dwfn iawn, sy'n lledaenu ar draws safleoedd drwy had a stolonau a gynhyrchir i'r pridd o amgylch y rhiant blanhigion. Nid yw'n sensitif iawn i lyffosad felly gall gymryd peth ymdrech ac amser i gael gwared ag ef cyn plannu



Helyglys Hardd yn cynhyrchu lluo o hadau a gludir gan y gwynt

**Phytophthora** (*Phytophthora cinnamomi* fel arfer) - yn dilyn tywydd gwlyb yn yr hydref, y gaeaf a dechrau'r gwanwyn, mae'r clefyd hwn a gludir yn y pridd yn broblem sylweddol mewn llawer o blanhigfeydd ffynidwydd Fraser neu ffynidwydd urddasol yn y DU eleni. Mae'r heintio'n digwydd yn yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn, yn enwedig os yw'r gaeaf yn gynnes ac yn wlyb. Yn aml bydd y clefyd yn cyrraedd y safle gyda deunydd plannu sydd wedi'i heintio ac wedi hynny caiff ei ledaenu o gae i gae ar dractorau a pheiriannau trin a chan ddŵr yn draenio ar ôl glaw trwm o dir sydd wedi'i heintio i dir cyfagos. Yn dameidiog y bydd yn datblygu efallai mewn caeau ac yn aml mae'n fwyaf amlwg lle caiff coed eu plannu mewn ardaloedd o dir sy'n draenio'n wael. Nid oes unrhyw gynnyrch ar gael i'w reoli ar hyn o bryd. Lle ceir heintiad difrifol, gallech ystyried ei drochi â chynnyrch sy'n cynnwys potasiwm ffosffit ond efallai mai cyfyngedig fydd ei effeithiolrwydd.



Symptomau phytophthora

Caiff **Rhizosphaera** ei ledaenu wrth i law sblasio, gan heintio ac, yn y pen draw, ladd twf y tymor presennol. Nid yw difrifoldeb y difrod a achosir gan y clefyd hwn yn cael ei weld fel arfer tan ddiwedd y gaeaf neu ddechrau'r gwanwyn y flwyddyn ganlynol. Mae sbriws h.y. Sbriws Norwy a sbriws glas Colorado, yn agored iawn i niwed, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ffwng hwn wedi cael ei gadarnhau ac mewn rhai achosion mae wedi achosi niwed difrifol i ffynidwydd y Cawscasws. Nid oes gan y ffyngleiddiaid copr a ddefnyddiwyd i'w reoli, yn debyg i clorothalonil, gymeradwyaeth bellach yn y DU, felly ar hyn o bryd nid oes opsiynau dibynadwy i'w reoli.

### Chwyn

Mae chwyn yn dod yn broblem o ran coed Nadolig ifanc a'r rhai sydd wedi ennill eu plwyf. Mae'r glaw diweddar wedi arwain at egino cyflym a thwf amrywiaeth eang o chwyn blynyddol mewn planhigfeydd ifanc. Yn ogystal, mae chwyn llydanddail a chwyn glaswellt wedi cael eu sbarduno hefyd i dyfu blodau a hadu. Bydd pob chwynladdwr cynnar gweddilliol wedi torri i lawr yn y pridd erbyn hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion ac yn enwedig yn achos coed ifanc lle mae eu twf blynyddol wedi'i gwblhau, gellir gohirio tynnu chwyn nes byddir yn defnyddio glyffosad cyffredinol ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref. Nid oes angen i chi anelu, wrth ymdrin â choed ifanc, at glirio'r tir yn llwyr gan fod gorchudd isel o chwyn yn gallu amddiffyn rhag gwyntoedd poeth, sych a pherygl o ddifrod solar yng nghanol a diwedd yr haf.

Gallai rhywfaint o sbot-drin chwyn fel ysgall rhedegog â chlopyralid (Daw Shield 400) fod o fudd.

Dyma amser da i ystyried eich cynlluniau plannu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddewis safleoedd nad ydynt yn cynnwys marchrawn, taglys parhaol na phoblogaethau mawr o chwyn lluosflwydd eraill. Os ydych chi'n plannu ar safleoedd â'r, dylech osgoi'r rheini sydd wedi cael eu defnyddio o'r blaen i dyfu had llin neu olew had rêu gan y bydd risg sylweddol y bydd y rhain yn cario chwyn yn y tymor canlynol. Hefyd, dylech osgoi safleoedd lle mae chwyn gwair eilflwydd, y gwyddys eu bod wedi cronni ymwrthedd i'r rhan fwyaf o chwynladdwyr e.e. gwair du, wedi ymsefydlu. Ar gyfer planhigfeydd presennol edrychwch ar y poblogaethau chwyn presennol i'ch helpu i gynllunio pa gynnyrch i'w ddefnyddio yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn y gwanwyn. Gellir defnyddio Diflufenican h.y. Hurricane SC a neu glyffosad e.e. Roundup (dim ond rhai mathau o gynnyrch y caniateir eu defnyddio'n gyffredinol, mae gan goed Nadolig e.e. EAMUus neu gymeradwyaeth label), yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ar yr un pryd neu'n ddiweddarach yn yr hydref gellir defnyddio chwynladdwyr gweddilliol fel dull rheoli cyn ymddangos ac, mewn rhai achosion, ôl ymddangos ar gyfer chwyn blynyddol sy'n egin ddiwedd yr hydref neu yn y gaeaf.

## **Ymwadiad**

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Dylai'r holl gemegion diogelu cnydau gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid darllen y label cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli i'w defnyddio ar goed Nadolig, ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan y 'Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr yn ôl risg y defnyddiwr ei hun, ac nid yw Tyfu Cymru yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar goed Nadolig yn gywir ar adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim i dyfwr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor dros yr e-bost/ffôn ar gael hefyd.

Gall *Adelges* fod yn broblem sylweddol, yn enwedig i wir ffynidwydd ond weithiau ffynidwydd y Cawcasws, ac maent yn arbennig o weithredol yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'r benywod yn gaeafu o dan gaen cwyr gwlanog, wedi'u diogelu rhag ysglyfaethwyr a phryfladdwyr sy'n gweithio ar gysylltiad. Bydd Mainman (dde) yn cael ei weld fel y smotiau lleiaf yn y blaguriad cyntaf, yn deor o wyau sydd wedi'u dodwy gan fenywod sy'n gaeafu ac fel arfer maent i'w gweld o amgylch bôn y blagur ar flaenau'r egin. Bydd gweithgarwch bwydo yn gwneud i'r nodwyddau droi ac aflunio, a bydd yr egin yn troelli, yn stiffio a marw. Mae'n hawdd lleadaenu'r rhain ar ddillad neu beiriannau, ac fel arfer cânt eu cario i mewn ar stoc plannu. Dylid rhoi chwistrell amddiffynnol o Hallmark ar waith ddechrau mis Mai cyn y blaguro, ond efallai y bydd angen atgyfnerthu hynny yn ddiweddarach yn y tymor gyda Calypso, Mainman (flonicaid) a Batavia (spirotetramat). Bydd Batavia yn symud yn systematig yn y planhigyn yn drawslaminaidd ond gall fod yn araf i weithio gyda bwllch o 7 – 10 diwrnod cyn i chi weld effaith. Fel plâu eraill, mae'n well cael rhaglen sy'n cylchdroi i sicrhau rheolaeth barhaus wrth leihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd.



Oedolion yn gaeafu



Difrod dros sawl tymor.



Difrod bwydo yn aflunio'r nodwyddau

### Lindys

Mae'r **Gwyfyn Tortix Afal Brown** wedi ymledu'n eang, a chafodd ei weld am y tro cyntaf mewn Ffynidwydd Douglas tua phum mlynedd yn ôl. Gellir monitro am oedolion yn hawdd gyda thrapiau fferomon os ydych yn gweld difrod cnoi ar nodwyddau. Bydd dwy genhedlaeth y flwyddyn, gyda lindys yn ymddangos gyntaf ym mis Mehefin/Gorffennaf tan ddiwedd yr hydref. Mae'r lindys yn gaeafu wedi'u lapio mewn nodwyddau neu mewn blagur, gan ailymddangos ym mis Mawrth i fwydo'n drwm ar y blaguriad cyntaf. Gellir trin y rhain yn effeithiol ag indoxacarb (e.e. Steward, EAMU 2905/08 **Cywir?**) neu Bacillus gydol y flwyddyn. Gallwch hefyd ddefnyddio trapiau ar gyfer gwyfyn afal a gwyfyn carnasiwn, er y bydd angen i chi gynllunio i chwistrellu'n rheolaidd bob blwyddyn ar ôl i chi gael y plâu hyn.



Moth Tortix Brown Afal



Difrod Bwydo ar Nodwyddau



## Clefydau

Gall tywydd garw waethygu **Necrosis Nodwyddau'r Tymor Presennol** yn Ffynidwydd y Cawscasws a Ffynidwydd Urddasol, ac fe'i hachosir gan haint ffwngaid yn y goeden. Mae hyn yn tueddu i fod yn llai o broblem mewn coed sy'n blaguro'n hwyr pan fydd y tywydd yn gynhesach ac yn llai llaith. Mae'r necrosis yn datblygu fel bandio tyfu/brown tua diwedd yr haf, cyn i'r nodwyddau ollwng ddiwedd mis Gorffennaf tan fis Medi.



Symptomau'r necrosis

Bydd **Chwyn Tân Rhwd** yn cynhyrchu symptomau tebyg i necrosis nodwyddau'r tymor presennol i ddechrau, a cheir llawer o achosion o'r haint mewn tywydd poeth, llaith, gyda llawer o gawodydd. Mae'n haws canfod patsys sborynnu ar ochr isaf y nodwyddau, a bydd nodwyddau'n cael eu taflu'n gynt o lawer nag yn sgil necrosis nodwyddau'r tymor presennol. Prin yw'r opsiynau i'w reoli (Conazole ac Amistar) ond gall fod yn anodd sicrhau bod y rhain wedi'u gwasgaru'n dda. Mae Chwyn Tân Rhwd yn defnyddio Helyglys Hardd, felly os yw hwnnw wedi ymsefydlu yn eich planhigfeydd bydd yno gronfa naturiol fawr ohono. Y ffordd orau o reoli hyn yw drwy blannu mewn safleoedd sy'n rhydd o helyglys, neu gael gwared â'r chwyn cyn plannu i atal egin newydd rhag cael eu heintio yn y gwanwyn.



Chwyn Tân Rhwd yn Sborynnu



Helyglys Hardd

Gall **Phytophthora** hefyd fod yn broblem sylweddol mewn Ffynidwydd Fraser neu Ffynidwydd Urddasol. Bydd symptomau'n datblygu ddiwedd yr haf hyd at y gaeaf, yn enwedig os yw'r gaeaf yn gynnes ac yn wlyb. Yn cael ei gludo mewn pridd, yn aml caiff ei daenu ar dractorau a pheiriannau er bod ei ddatblygiad yn gallu bod yn dameidiog. Nid oes unrhyw gynnyrch rheoli ar gael. Os cewch heintiad drwg, gallech ystyried ei drochi â chynnyrch ffosffit ond efallai mai cyfyngedig fydd ei effeithiolrwydd.

Mae **Rhizosphaera** yn gallu cael ei ledaenu gan law yn sblasio, gan ladd twf eleni. Nid yw ffyngleiddiaid copr ar gael mwyach, ac mae'r opsiynau rheoli yn brin.



Phytophthora

## Chwyn

Efallai na fydd chwyn yn dod yn broblem nes ceir glaw yn ddiweddarach yn yr haf. Erbyn hynny bydd chwynladdwyr gweddilliol dechrau'r tymor wedi torri i lawr yn y pridd. Mae'n werth ystyried eich cynlluniau plannu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddewis safleoedd nad ydynt yn cynnwys marchrawn, taglys na phoblogaethau mawr o chwyn lluosflwydd eraill. Os ydych chi'n plannu ar safleoedd â'r dylech osgoi'r rheini

sydd wedi cael eu defnyddio o'r blaen i dyfu had llin neu olew had r p gan y bydd risg sylweddol y bydd y rhain yn cario chwyn y tymor canlynol. Ar gyfer planhigfeydd presennol edrychwch ar y poblogaethau chwyn presennol i'ch helpu i gynllunio pa gynnyrch i'w ddefnyddio yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn y gwanwyn. Gellir defnyddio Hurricane neu Groundup yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a gellir defnyddio chwynladdwyr gweddilliol i reoli chwyn yn y gaeaf. Fodd bynnag, nid oes angen i chi anelu at glirio'r tir yn llwyr gan fod gorchudd isel o chwyn yn gallu amddiffyn rhag gwyntoedd poeth, sych a pherygl o ddifrod gan yr haul.

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Dylai'r holl gemegion diogelu cnydau gael eu defnyddio'n unol  r argymhellion ar y label, a dylid darllen y label cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli i'w defnyddio ar goed Nadolig, ond eu bod yn cael eu caniat u drwy'r Estyniad o Ganiat d ar gyfer M n Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan y 'Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr yn  l risg y defnyddiwr ei hun, ac nid yw Tyfu Cymru yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar goed Nadolig yn gywir ar adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n  l ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim i dyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch   ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor dros yr e-bost/ff n ar gael hefyd.